## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (SANCLÊR, SIR GAERFYRDDIN I HWLFFORDD, SIR BENFRO) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng Sanclêr, Sir Gaerfyrddin a Hwlffordd, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gosod terfyn cyflymder o 40 mya neu 10 mya ar y darnau o'r A40 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; a

ii. gosod terfyn cyflymder o 10 mya ar y darnau o'r A40 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 21 Mehefin 2023. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar 21 Mehefin 2023 hyd 23:59 o'r gloch ar 15 Gorffennaf 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A40 TRUNK ROAD (ST CLEARS, CARMARTHENSHIRE TO HAVERFORDWEST, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road between St Clears, Carmarthenshire and Haverfordwest, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. impose a 40 mph or 10 mph speed limit on the lengths of the A40 described in Schedule 1 to this Notice; and

ii. impose a 10 mph speed limit on the lengths of the A40 described in Schedule 2 to this Notice.

The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 21 June 2023. The temporary restrictions and prohibition are expected to operate from 00:01 hours on 21 June 2023 until 23:59 hours on 15 July 2023 or until the temporary traffic signs have been permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1
**Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 211 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Sanclêr hyd at bwynt 375 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U6385 yn Llanddewi Felffre (gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol Cylchfan Heol Llanboidy a Chylchfan Blackbridge, Hendy-gwyn ar Daf).

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt tua 1.11 cilometr i'r gorllewin o'i chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U6385 i Lanbedr Felffre hyd at bwynt 27 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Robeston Wathen (gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Penblewin).

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 37 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Robeston Wathen hyd at bwynt 36 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont Canaston.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 39 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Canaston hyd at bwynt tua 1.2 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd orllewinol â'r ffordd sirol a elwir yn Cartlett, Hwlffordd.

## ATODLEN 2
**Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Sanclêr hyd at bwynt 211 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre sy'n ymestyn o bwynt 375 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U6385 am tua 1.49 cilometr.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 27 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Robeston Wathen hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gorllewin o'r gylchfan honno, gan gynnwys ei cherbytffordd gylchredol.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 36 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont Canaston hyd at bwynt 39 o fetrau i'r gorllewin o'r gylchfan honno, gan gynnwys ei cherbytffordd gylchredol.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt tua 1.2 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol a elwir yn Cartlett hyd at ei chyffordd â Chylchfan Scotchwell, Hwlffordd.

## SCHEDULE 1
**Temporary 40 mph or 10 mph speed limit and no overtaking**

The length of the A40 trunk road that extends from a point 211 metres west of its junction with St Clears Roundabout to a point 375 metres east of its junction with the unclassified road U6385 at Llanddewi Velfrey (including the circulatory carriageways of Llanboidy Road and Blackbridge Roundabouts, Whitland).

The length of the A40 trunk road that extends from a point approximately 1.11 kilometres west of its junction with the unclassified U6385 to Lampeter Velfrey to a point 27 metres east of its junction with Robeston Wathen Roundabout (including the circulatory carriageway of Penblewin Roundabout).

The length of the A40 trunk road that extends from a point 37 metres west of its junction with Robeston Wathen Roundabout to a point 36 metres east of its junction with Canaston Bridge Roundabout.

The length of the A40 trunk road that extends from a point 39 metres west of its junction with Canaston Bridge Roundabout to a point approximately 1.2 kilometres north-east of the centre-point of its western junction with the county road known as Cartlett, Haverfordwest.

## SCHEDULE 2
**Temporary 10 mph speed limit and no overtaking**

The length of the A40 trunk road that extends from its junction with St Clears Roundabout to a point 211 metres west of that junction.

The length of the A40 trunk road at Llanddewi Velfrey that extends from a point 375 metres east of its junction with the unclassified road U6385 for approximately 1.49 kilometres.

The length of the A40 trunk road that extends from a point 27 metres east of its junction with Robeston Wathen Roundabout to a point 37 metres west of that roundabout, including its circulatory carriageway.

The length of the A40 trunk road that extends from a point 36 metres east of its junction with Canaston Bridge Roundabout to a point 39 metres west of that roundabout, including its circulatory carriageway.

The length of the A40 trunk road that extends from a point approximately 1.2 kilometres north-east of the centre-point of its junction with the county road known as Cartlett to its junction with Scotchwell Roundabout, Haverfordwest.